



Negeseuon a galwadau niwsans

Diweddariad i gynllun gweithredu ar y cyd rhwng Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cyflwyniad

Bum mlynedd yn ôl, fe gyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r niwed a achosir i ddefnyddwyr gan negeseuon a galwadau niwsans.

Ers hynny, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi cyhoeddi diweddariadau rheolaidd i'r cynllun, a'r diweddaraf ym mis Rhagfyr 2016. Roedd y diweddariad hwnnw'n nodi ein meysydd ffocws ar y cyd ar gyfer 2017:

- Cymryd camau gorfodi wedi'u targedu;
- Gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebu i ddatblygu a mireinio mesurau technegol i helpu i atal galwadau niwsans; a
- Rhannu gwybodaeth a chydweithio i fynd i'r afael â galwadau niwsans.

Fel y dengys y diweddariad hwn, rydym wedi gwneud cynnydd ymhob un o'r prif feysydd hyn.

Mae ein hymdrechion ar y cyd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae nifer y cwynion a gafodd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am alwadau niwsans wedi gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol, sy'n gwrthdroi bron i ddegawd o gynnydd blynyddol. Mae ymchwil defnyddwyr Ofcom yn ategu'r gostyngiad yn y galwadau hyn.

Cefndir

Mae galwadau niwsans yn cynnwys galwadau marchnata (byw ac wedi'u recordio), galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.¹ Yn ôl amcangyfrif diweddaraf Ofcom, mae oddeutu 3.9 biliwn o alwadau niwsans yn cael eu derbyn ar linellau tir y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Er bod y nifer yma yn fawr, mae'r nifer tua 20% yn llai na'n hamcangyfrif o 4.8 biliwn o alwadau i linellau tir yn 2015. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar ymchwil dyddiadur Ofcom (sy'n cael ei esbonio isod).

Ymchwil dyddiadur

Ers pum mlynedd, mae Ofcom wedi gofyn i banel o ddefnyddwyr sy'n cynrychioli'r wlad i gyd gofnodi eu profiad o alwadau niwsans wrth eu derbyn ar eu llinell dir, a hynny dros gyfnod o bedair wythnos ymhob blwyddyn. Dyma ein hymchwil dyddiadur. Yn ystod ton olaf yr ymchwil,² a gynhaliwyd yn ystod Ionawr a Chwefror 2017, roedd 81% o'r cyfranogwyr wedi derbyn rhyw fath o alwad niwsans. Dyma'r nifer isaf a gofnodwyd yn ystod yr holl donnau ymchwil, ac yn bum pwynt canran o ostyngiad ers 2015 (86%). Roedd y rhan fwyaf o'r galwadau hyn yn 2017 yn alwadau gwerthu byw a galwadau mud (36% yr un), wedyn galwadau gwerthu wedi'u recordio (13%), a galwadau sy'n cael eu gadael

¹ Galwad sy'n cael ei adael - galwad lle mae'r galwr yn cysylltu â rhywun dros y ffôn, ond wedyn yn dod â'r alwad i ben pan fydd y person hwnnw yn ateb ei ffôn. Yn yr achosion hyn mae Ofcom yn disgwyl i'r sawl sy'n ffonio chwarae neges wybodaeth fer wedi'i recordio a fydd yn dweud pwy ydyw ac yn rhoi ffordd i'r sawl sydd wedi ateb ddewis peidio â derbyn rhagor o alwadau. Galwad mud - galwad, fel mae'r enw'n awgrymu, lle mae'r sawl sydd wedi cael ei ffonio yn clywed dim byd.

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0020/101972/landline-nuisance-calls-wave-5.pdf. Mae canlyniadau'r ymchwil ar gyfer y pum ton i'w gweld drwy ddilyn y ddolen.

(4%).³ Yr unig newid sylweddol yn nosbarthiad y galwadau ers 2016 oedd yn y galwadau gwerthu; cododd y galwadau gwerthu byw o 33% a gostyngodd y galwadau gwerthu wedi'u recordio o 16%. Pynciau mwyaf cyffredin y galwadau yn 2016 a 2017 oedd gwelliannau i'r cartref a PPI.

Mae Ofcom yn pwysu a mesur sut i newid ei ddull ar gyfer ymchwilio i alwadau niwsans ac ni fydd yn ailadrodd yr ymchwil dyddiadur ar ei ffurf bresennol.

Ymchwil tracio

Yn ogystal ag ymchwil dyddiadur, mae Ofcom hefyd yn cynnal yn cynnal arolygon tracio omnibws. Mae Ofcom yn gofyn i gyfranogwyr gofnodi, am gyfnod o bedair wythnos cyn yr arolwg, eu profiad o'r galwadau niwsans a gawsant ar eu ffonau llinell dir a/neu ffonau symudol. Ar hyn o bryd, mae Ofcom yn cynnal yr ymchwil hwn dair gwaith y flwyddyn, ym mis Ionawr, mis Mai a mis Medi. Ym mis Gorffennaf 2015, dywedodd 74% o'r cyfranogwyr (yr uchaf erioed) eu bod wedi derbyn galwad niwsans. Ym mis Medi 2017, roedd y ffigur yn 58%, sef gostyngiad o ryw 20% mewn ychydig dros ddwy flynedd. Yn yr arolwg diweddaraf, ym mis Ionawr 2018, mae'r gostyngiad wedi parhau, gyda 54% yn dweud eu bod wedi derbyn galwad niwsans ar eu ffôn llinell dir neu symudol.

Data cwynion

Mae Ofcom yn derbyn ac yn cofnodi cwynion defnyddwyr am alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, tra mai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n derbyn ac yn cofnodi cwynion am alwadau gwerthu a marchnata byw ac wedi'u recordio, yn ogystal â negeseuon testun ac e-byst na ofynnwyd amdanynt. Yn 2017, cafodd Ofcom 33,189 o gwynion am alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i gyfanswm y cwynion mewn blwyddyn ostwng, 22% o ostyngiad ers 2016 a 28% o ostyngiad ers i'r niferoedd fod ar eu huchaf, sef 46,648, yn 2015. Ym mis Rhagfyr 2017 y cafwyd y nifer isaf o gwynion mewn mis ers 2012. Mae data cwynion cymharol misol a blynyddol Ofcom ar gyfer 2017 i'w gweld yn Atodiadau 1 a 2.

Mae niferoedd cwynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn tueddu i ddilyn yr un cyfeiriad ag Ofcom.

Yn ystod 2017, derbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 127,623 o bryderon, gostyngiad o ryw 17% ar y 153,525 o bryderon y cafodd wybod amdanynt yn ystod 2016. Ym mis Rhagfyr 2017, cafodd wybod am 5780 o bryderon, sef y nifer isaf eto mewn mis ers 2012. Mae ffigurau cwynion misol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer 2016 a 2017 ar gael yn Atodiad 3.

³ Roedd 12% yn fathau eraill o alwadau neu fathau heb eu pennu.

Cymryd camau gorfodi wedi'u targedu

Camau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae gweithgaredd gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn canolbwyntio ar y sefydliadau hynny sy'n torri Rheoliadau Cyfathrebiadau Electronig a Phreifatrwydd 2003 (fel y'u diwygiwyd) (PECR). Y Swyddfa felly sy'n bennaf gyfrifol am gymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau sy'n gwneud galwadau marchnata niwsans byw ac wedi'u recordio, sy'n anfon e-byst neu negeseuon testun niwsans, neu sy'n anwybyddu neu'n camddefnyddio cofrestr 'peidio â galw' y TPS.

Ers y diweddariad diwethaf, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi bod wrthi'n ddiarbed yn canolbwyntio ar fater galwadau marchnata uniongyrchol digymell ac yn defnyddio'i phwerau rheoleiddio'n llawn. Yn 2017, cyflwynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 29 o gosbau ariannol sifil a oedd yn werth £2,833,500. Roedd y gosb fwyaf o £400,000 yn erbyn Keurboom Communications Ltd am wneud dros 99 miliwn o alwadau marchnata awtomatig anghyfreithlon. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd saith cosb o £100,000 neu fwy. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am orfodi'n fisol ar ei gwefan.

Yn ogystal â defnyddio cosbau ariannol i gosbi sefydliadau sy'n torri'r Rheoliadau'n sylweddol, fe gyhoeddodd y Swyddfa 12 Rhybudd Gorfodi hefyd sy'n gorfodi sefydliadau i lynu wrth y gyfraith yn eu gweithgareddau marchnata yn y dyfodol neu wynebu cael eu erlyn yn y llysoedd. Ym mis Rhagfyr 2017, defnyddiodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei phwerau chwilio ac atafaelu drwy ddefnyddio dwy warant chwilio yng nghyswllt dau adeilad yn Nottingham. Mae hyn yn rhan o ymchwiliad ehangach sy'n canolbwyntio ar rwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n gyfrifol am alwadau awtomatig nas gofynnwyd amdanynt mewn perthynas â hawlio am anafiadau personol.

Parhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth â'i phrosiect "siopwr dirgel". Ei nod yw ceisio cael rhagor o wybodaeth am sut mae data personol yn cael ei fasnachu a'i rannu mewn perthynas â sectorau a materion penodol. Cyhoeddodd y Swyddfa wybodaeth am y prosiect hwn yn gynharach yn 2017.

Gweithio mewn partneriaeth. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda Rheoleiddiwr Rheoli Hawliadau (CMR) y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae wedi mynychu nifer o archwiliadau gan y CMR eleni. Mae'r archwiliadau'n asesu sut mae cwmnïau rheoli hawliadau'n cydymffurfio â rheolau marchnata uniongyrchol. Rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyngor ar gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a PECR i'r Rheoleiddiwr Rheoli Hawliadau a'r sefydliadau a oedd yn cael eu harchwilio.

Ym mis Ionawr 2017, ysgwyddo Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyfrifoldeb statudol am y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn (TPS). Yn ystod y flwyddyn, bu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gweithio i wella'r broses o rannu gwybodaeth a thystiolaeth parthed data'r TPS, a defnyddio'r wybodaeth yn fwy effeithiol ar gyfer cyfleoedd gorfodi. O ganlyniad, cafodd mwy o gosbau ariannol eu rhoi am dorri rheolau'r TPS yn 2017 nag erioed o'r blaen, a'r symiau a roddwyd yn uwch.

Camau gweithredu Ofcom

Yn hanesyddol, mae gweithgarwch gorfodi Ofcom wedi canolbwyntio ar gymryd camau gweithredu, gan gynnwys rhoi cosbau, yn erbyn canolfannau galwadau sy'n gwneud galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Ond, oherwydd y cynnydd sydyn yn nifer y sefydliadau llai sy'n gwneud y galwadau hyn, mae Ofcom wedi gorfod newid ei ddull gweithredu mewn blynyddoedd diweddar.

Felly, mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio'n fwy ar sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eu hunain yn gweithredu'n effeithiol i ddiogelu eu cwsmeriaid rhag galwadau niwsans.

Cyfarwyddiadau blocio ffurfiol. Ym mis Mehefin 2017, fel rhan o'n canllawiau gorfodi newydd, mabwysiadodd Ofcom weithdrefnau newydd yn nodi sut y byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau blocio galwadau i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu i atal galwadau niwsans rhag mynd trwodd i ddefnyddwyr yn y lle cyntaf.⁴ Mae Amod Cyffredinol 20.3 yn mynnu bod darparwyr yn blocio galwadau trafferthus yn y ffynhonnell pan gânt gyfarwyddyd gan Ofcom i wneud hynny, ar sail tystiolaeth o dwyll neu gamddefnyddio. Mae ein canllawiau gorfodi newydd yn darparu proses glir ar gyfer cyhoeddi'r cyfarwyddiadau hyn ac yn hwyluso'r broses o weithredu'r cyfarwyddiadau'n gyflym.

Rheolau newydd ar gyfer gwasanaeth Adnabod y Galwr. Ym mis Medi 2017, mabwysiadodd Ofcom reol newydd yn ymwneud â chyfleusterau Adnabod y Galwr ('CLI').⁵ Mae'r cyfleusterau hyn yn rhoi modd i'r sawl sy'n derbyn yr alwad weld rhif ffôn y sawl sy'n gwneud yr alwad. Mae hyn yn helpu'r sawl sy'n derbyn yr alwad i wneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch derbyn yr alwad ai peidio, ac i hysbysu rheoleiddwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith am alwadau trafferthus yn fwy effeithiol. Bydd y rheolau newydd yn y dod i rym ym mis Hydref 2018, ac yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau cyfathrebu yn:

- darparu cyfleusterau Adnabod y Galwr ac yn eu troi ymlaen fel mater o drefn, pan fo hynny'n ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd. Rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau beidio â chodi dim ffioedd ychwanegol neu ar wahân ar gyfer cael mynediad i gyfleusterau Adnabod y Galwr safonol;
- lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol, sicrhau bod unrhyw ddata Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu yn cynnwys rhif ffôn dilys y gellir ei ddeialu sy'n dangos yn union pwy sy'n ffonio; a
- cymryd camau rhesymol, lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol, i ganfod a blocio galwadau os oes rhif Adnabod y Galwr yn cael ei ddarparu sy'n annilys neu yn amhosib ei ddeialu.

Ymgynghoriadau ar ganllawiau Adnabod y Galwr a thynnu rhifau yn ôl. Yn ogystal â mabwysiadu'r rheolau newydd ar gyfleusterau Adnabod y Galwr, bu i ni hefyd ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i ganllawiau'r gwasanaeth Adnabod y Galwr, a chynnig newydd i gryfhau ein pwerau ar

⁴ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0015/102516/Enforcement-guidelines-for-regulatory-investigations.pdf. Gweler adran 8.

⁵ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/106397/Statement-and-Consultation-Review-of-the-General-Conditions-of-Entitlement.pdf. Gweler adran 13.

gyfer tynnu rhifau yn ôl. Byddai'r cynnig olaf hwn yn galluogi Ofcom i dynnu rhifau y mae wedi'i ddyrannu i ddarparwr yn ôl os yw wedi methu â chymryd camau digonol i fynd i'r afael â'r niwed neu'r niwsans sy'n gysylltiedig â'r rhifau sydd wedi cael eu dwyn i'w sylw gan Ofcom. Mae'r ymgynghoriadau ar ganllawiau'r gwasanaeth Adnabod y Galwr a'r cynnig ar dynnu rhifau yn ôl wedi cau, a disgwylir i'r penderfyniadau terfynol a fydd yn cael eu gwneud ddod i rym ym mis Hydref 2018 (ochr yn ochr â'r rheol newydd ar wasanaeth Adnabod y Galwr).

Camau gweithredu eraill sy'n gysylltiedig â gorfodi. Yn 2017, gwnaethom gysylltu â thua 20 o ddarparwyr gwahanol yr oedd Ofcom wedi dyrannu rhifau ffôn iddynt a oedd fel petaent yn achosi lefelau uchel o niwed i ddefnyddwyr. Cafodd y rhifau hyn eu pennu drwy'r cwynion a gawsom gan ddefnyddwyr, data mesur y Gweithgor Strategol (a ddisgrifir isod), neu wybodaeth arall. Mewn rhai achosion, anfonwyd gohebiaeth ffurfiol gennym i ofyn am esboniadau am y lefel uchel o gwynion a gynhyrchwyd drwy'r defnydd o'r rhifau a oedd yn cael eu dyrannu ganddynt a gwybodaeth am y ffordd yr oeddent yn bwriadu delio â'r mater. Ymatebodd y darparwyr drwy gymryd nifer o gamau gweithredu, o atgoffa'u cwsmeriaid am eu dyletswyddau, i derfynu'r gwasanaeth pan oedd raid. Er enghraifft, terfynodd un darparwr yr holl wasanaethau i gwsmer busnes y canfuwyd ei fod ymhlith y troseddwr mwyaf ac yn gyfrifol am gyfran sylweddol o gwynion i Ofcom. Wedi hynny, gwelwyd 90% o ostyngiad yn y cwynion a oedd yn gysylltiedig â'r rhifau a oedd wedi'u aseinio i'r darparwr. Disgwylwn i bob darparwr gwasanaeth cyfathrebu gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r rhifau sy'n cael eu dyrannu ganddynt yn cael eu camddefnyddio; nod ein cynnig i dynnu rhifau yn ôl (esboniad uchod)) yw ategu'r ddyletswydd hon.

Atebion technegol i fynd i'r afael â'r broblem

Mae Ofcom hefyd yn parhau i ddefnyddio'i ddylanwad a'i berthynas â darparwyr gwasanaethau cyfathrebu mewn ffyrdd eraill i roi sylw i alwadau niwsans. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r darparwyr cyfathrebiadau mwyaf yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu mesurau technegol i atal y galwadau hyn, ac rydym yn parhau i gyfrannu at yr ymdrechion byd-eang i wella dibynadwyedd gwasanaeth Adnabod y Galwr.

Gweithgor Strategol

Yn 2015, ffurfiodd Ofcom Weithgor Strategol yn cynnwys naw o'r prif ddarparwyr cyfathrebiadau,⁶ gyda chylch gwaith i ystyried mesurau technegol i leihau effaith galwadau niwsans anghyfreithlon, gan gynnwys drwy flocio ac atal galwadau. Mae aelodau'r Gweithgor hwn wedi pennu nodweddion galwadau niwsans, a bob mis maent yn mesur y traffig ar draws eu rhwydweithiau sy'n gydnaws â'r nodweddion hyn, ac yn rhoi'r wybodaeth honno i Ofcom. Gallant hefyd gymryd camau gweithredu gwirfoddol i flocio neu atal galwadau o'r fath. Mae'r data yma yn cyfrannu at wybodaeth Ofcom, sy'n sail i'n gwaith gorfodi.

Ar ddiwedd 2017, roedd chwe o'r naw aelod o'r gweithgor yn blocio galwadau trafferthus fel mater o drefn ar lefel rhwydwaith, ac/neu yn cynnig gwasanaeth di-dâl i'w cwsmeriaid i flocio neu

⁶ Y darparwyr cyfathrebiadau yw BT (sy'n cynnwys EE), Gamma, KCom, Sky, TalkTalk, Telefonica, Three, Virgin Media, a Vodafone.

ddargyfeirio galwadau trafferthus. Mae'r ymdrechion hyn yn lleihau nifer y galwadau y mae eu cwsmeriaid yn eu derbyn. Rydym yn amcangyfrif bod y darparwyr hyn gyda'i gilydd wedi blocio, dargyfeirio, sgrinio neu wedi tarfu ar o leiaf 500 miliwn o alwadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn parhau i weithio gyda'r darparwyr i ddod o hyd i ffyrdd technegol eraill o atal galwadau niwsans.

I hwyluso'r drefn o flocio galwadau'n wirfoddol, sefydlodd Ofcom gronfa ddata hefyd yn 2017 er mwyn i aelodau'r gweithgor rannu'r rhifau maent yn eu blocio ac i weld y rhifau mae darparwyr eraill wedi'u blocio er mwyn gallu ystyried rhagor o gamau gweithredu. Mae Ofcom hefyd wedi pennu rhifau 'gwarchodedig' mae modd eu blocio'n ddiogel gan nad yw Ofcom wedi'u dyrannu ac nid yw'n disgwyl gwneud hynny'n eto, ac wedi rhannu rhestr o'r rhifau hyn ag aelodau'r grŵp. Nid oes gan yr un galwr hawl i ddefnyddio'r rhifau hyn, ac felly mae unrhyw alwadau sy'n dangos y rhifau hyn yn anghyfreithlon ac yn niwsans.

Dilysu gwasanaeth Adnabod y Galwr drwy safonau technegol newydd a bydeang yr IETF (Tasglu Peirianeg y Rhynggrwyd).

Rhwydweithiau ar y rhynggrwyd sydd bellach yn cludo'r rhan fwyaf o draffig llais busnes (gan gynnwys traffig llais canolfannau galw) ar ryw adeg yn ystod galwad, gan ddefnyddio technolegau Protocol Llais dros y Rhynggrwyd (VoIP). Mae'r ffordd y mae technoleg VoIP yn gweithio'n golygu bod gwasanaeth Adnabod y Galwr ffug (CLI spoofing - sef ffugio'r rhif ffôn a gyflwynir gyda galwad i guddio pwy yw'r galwr go iawn) yn rhywbeth sy'n gymharol hawdd ei wneud ac yn anodd i awdurdodau ar draws y byd ei atal. Mae hyn, ochr yn ochr â gallu VoIP i ganiatáu niferoedd enfawr o alwadau cost isel iawn o unrhyw le yn y byd sydd â chysylltiad rhynggrwyd, wedi cyfrannu at y cynnydd sydyn mewn galwadau niwsans.

Mae'r IETF yn gweithio ar safon dechnegol newydd⁷ i sicrhau mai dim ond galwadau â rhif Adnabod y Galwr dilys, lle mae gan y rhai sy'n galw hawl i ddefnyddio'r rhif hwnnw, sy'n cael eu symud ar hyd y 'gadwyn alwadau' o'r sawl sy'n gwneud yr alwad i'r sawl sy'n derbyn yr alwad. Mae hyn yn golygu bod y partïon sy'n cael eu galw'n gallu dibynnu ar y rhif adnabod y galwr sy'n cael ei ddangos a gwneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch a ddylent ateb yr alwad neu beidio. Bydd y safon hon yn cael ei chwblhau maes o law. Gydol 2017, bu Ofcom yn cysylltu â'n partneriaid rhyngwladol ynghylch y gwaith hwn, gan ei fod yn hanfodol ar gyfer atal niwed yn y dyfodol, ac i barhau i weld gostyngiad yn y niwed a achosir. Disgwylir y bydd STIR (Secure Telephone Identity Revisited) yn dechrau cael ei ddefnyddio ar rwydweithiau yn yr Unol Daleithiau a Chanada yn 2018, ac mae Ofcom wedi cytuno i gydgyssylltu â chymheiriaid yn yr Unol Daleithiau a blaenoriaethu'r gwaith paratoi ar gyfer ei roi ar waith yma yn y Deyrnas Unedig. Mae'r amserlen ar gyfer defnyddio'r safon yn y DU yn dal i gael ei diffinio, ond bydd yn hirach nag yng Ngogledd America gan nad yw systemau VoIP yn cludo llawer o draffig defnyddwyr yn y DU ar hyn o bryd, ac efallai y bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y mae rhifau'n cael eu dyrannu a'u rheoli.

⁷ Secure Telephone Identity Revisited (STIR)

Rhannu gwybodaeth

Mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd fel mater o drefn, a hefyd â chyrrff eraill, yn y Deyrnas Unedig ac o gwmpas y byd, i'n helpu i roi sylw i alwadau niwsans.

Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO-Ofcom). Mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn cysylltiad cyson â'i gilydd mewn perthynas â materion sydd o fudd i'r ddau ohonynt, gan rannu gwybodaeth am arferion a thargedau gorfodi, yn ogystal â thechnegau a dulliau ymchwilio. Mae Ofcom hefyd yn rhannu canlyniadau gwaith y Gweithgor Strategol yn monitro rhwydweithiau'n fisol. I sicrhau bod ein proses ar gyfer rhannu gwybodaeth mor syml â phosibl, rydym yn diweddarau ein Llythyr Dealltwriaeth gyda'n gilydd ac yn cyhoeddi fersiwn newydd eleni.

Operation Linden. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n arwain Operation Linden, grŵp amlasiantaethol o randdeiliaid (yn cynnwys rheoleiddwyr, grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a diwydiant) sy'n cydweithio i rannu gwybodaeth a chanfod cyfleodd i fynd i'r afael â galwadau niwsans. Mae'r rhai sy'n cyfrannu'n rheolaidd at y grŵp yn cynnwys Ofcom, Cyngor ar Bopeth, Which?, BT yn cynrychioli'r diwydiant telegyfathrebiadau, Y Gymdeithas Marchnata Uniongyrchol, Rheoleiddiwr Rheoli Hawliadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Safonau Masnach Cenedlaethol a'r Comisiwn Gamblo. Mae'r grŵp yn darparu adroddiadau ar gynlluniau sy'n ceisio atal neu darfu ar alwadau niwsans, a rhannu gwybodaeth. Y tro diwethaf i'r grŵp gyfarfod oedd ar 7 Medi 2017. Mae'r cofnodion a'r camau gweithredu i'w cyflawni gan aelodau'r grŵp yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cydweithredu Rhyngwladol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn aelod o Rwydwaith Gorfodi Cyfathrebiadau Digymell, (UCENET, Cynllun Gweithredu Llundain yn flaenorol), ynghyd â'r Comisiwn Masnach Ffederal, Comisiwn Radio, Teledu a Thelegyfathrebiadau Canada (CRTC), Asiantaeth Diogelwch a Rhyngwyd Korea, Awdurdod Cyfryngau a Chyfathrebiadau Awstralia (ACMA) ac Adran Materion Mewnol Seland Newydd.

Mae'r grŵp yma o reoleiddwyr rhyngwladol yn cydlynu'r gwaith o rannu gwybodaeth i fynd i'r afael â galwadau niwsans a negeseuon na ofynnwyd amdanynt.

Un o brif feysydd ffocws UCENET eleni fu datblygu a chyflwyno'r cynllun gweithredol newydd. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedwar gweithgarwch - Gwybodaeth, Gorfodi, Cyfathrebu a Hyfforddi. Un o'r prif nodau eleni fu cynnal 'cyrch' parthed gweithgarwch marchnata cysylltiedig ymhob awdurdodaeth. Bydd canlyniadau'r Cyrch yn cael eu cyhoeddi yn 2018.

Mae gan Ofcom statws sylwedydd yn UCENET, ac yn 2018 bydd yn parhau i weithio gyda'i aelodau partner sef rheoleiddwyr telegyfathrebiadau rhyngwladol, – ACMA, CRTC, Comisiwn Cyfathrebiadau Ffederal yr Unol Daleithiau - i rannu gwybodaeth am ddulliau i ddelio â galwadau niwsans ar lefel darparwr.

Cyllid y DU. Yn 2017, cafwyd rhagor o ddatblygiad ym mherthynas Ofcom â Cyllid y DU, corff sy'n cynrychioli sector ariannol y Deyrnas Unedig, i roi sylw i alwadau niwsans sy'n cynnwys sgamiau. Ymysg pethau eraill mae Ofcom a Cyllid y DU yn archwilio'r posibilrwydd o greu rhestr o rifau na fydd yn cael eu defnyddio byth gan fanciau ar gyfer galwadau allan ganddynt hwy, yn debyg i'r rhestr o rifau gwarchodedig sy'n cael ei thrafod uchod. Byddai'r rhestr yn cynnwys rhifau wedi'u haseinio i

fanciau a'r banciau hynny yn dweud wrthym na fyddent byth yn cael eu defnyddio ar gyfer galwadau ganddynt hwy at gwsmeriaid. O ganlyniad, byddai modd pennu unrhyw alwad i ddefnyddiwr sy'n dangos y rhif hwn fel galwad a allai fod yn dwyllodrus ac felly byddai'n cael ei flocio. Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda Cyllid y DU drwy gydol 2018 i fynd i'r afael â galwadau sgam.


Cynllun ar gyfer 2018

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn credu bod ein dull ar gyfer delio â galwadau niwsans yn 2017 wedi cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â galwadau niwsans a lleihau niwed i ddefnyddwyr. Felly, rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ar yr un dulliau yn 2018:

- cymryd camau gorfodi wedi'u targedu;
- gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i atal galwadau a tharfu arnynt;
- rhannu gwybodaeth ag eraill, gan gynnwys partneriaid rhyngwladol, ac asiantaethau gorfodi sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â sgamiau a thwyll;
- parhau i ganfod cyfleoedd drwy gydweithio ag asiantaethau a rheoleiddwyr eraill, lle gallwn gyfuno ein pwerau i atal a chosbi sefydliadau ac unigolion sy'n gyfrifol am y niwed sy'n cael ei achosi gan alwadau niwsans.


Atodiad 1

Data cwynion cymharol misol Ofcom ar gyfer 2017



Atodiad 2

Data cwynion cymharol blynyddol Ofcom ar gyfer 2017



Atodiad 3

Data cwynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer 2016 a 2017

